**LC392**

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU DRAFFT** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT DRAFT**

**Rheoliadau Hawliau Cadw (Trosglwyddo Cyfrifoldebau i'r Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2001 Rhif 3985 (Cy.326)**

Mae'r rhain yn cael eu gwneud o dan adran 50 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001 sy'n ymwneud â dileu gwaharddiadau sy'n atal yr awdurdodau lleol rhag darparu llety ar gyfer personau a oedd mewn llety o'r fath ar 31 Mawrth 1993.

Rheol Sefydlog 11.5

Bydd yn rhaid codi pwynt gyda'r Gweinidog priodol o dan RS 11.4 ynglŷn â therm a ddiffinnir yn rheoliad 1 (2)(a), sef "y Ddeddf". Ymddengys bod gwall yn y drafftio oherwydd ni cheir y term "y Ddeddf" yn y rheoliadau.

Yn ogystal, bydd yn rhaid tynnu sylw'r Gweinidog at bwynt o dan RS 11.4, sef nad oes unrhyw gyfeiriad at adran 66 yn y rhaglith na chwaith yn nhroednodyn (a). Ystyrir y dylid fod wedi cyfeirio at adran 66 er mwyn nodi bod y cyfeiriad at "regulations" yn y diffiniad o "prescribed" yn adran 50(10) yn golygu, mewn perthynas â Chymru, reoliadau a wnaethpwyd gan y Cynulliad. Mae'n berthnasol oherwydd nid yw adran 50 ei hun yn cofnodi enw'r awdurdod sy'n gallu gwneud rheoliadau.

Nodir, a hynny fel pwynt bach iawn, y dylai'r cyfeiriad at "adrannau" yn rheoliad 2(1) (ac yn y cyfeiriad cyfatebol yn y nodyn esboniadol) fod yn gyfeiriad at "adran".

Cynghorydd Cyfreithiol
Y Pwyllgor Deddfau

Cyf: LAD 01-01-459

16 Ionawr 2002